Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Datganiad newyddion

5 Tachwedd 2008

Safonau mewn cymwysterau medrau allweddol yn gwella ond dim digon o ddisgyblion yn cael eu cofrestru yng nghyfnod allweddol 4

Nid yw'r rhan fwyaf o ysgolion nad ydynt yn cymryd rhan ym Magloriaeth Cymru yn cofrestru disgyblion ar gyfer cymwysterau medrau allweddol yng nghyfnod allweddol 4, er bod Estyn wedi canfod bod medrau allweddol disgyblion wedi gwella'n gyson yn yr ysgolion uwchradd a arolygwyd dros y blynyddoedd diwethaf.

Dim ond 3% o'r holl gymwysterau medrau allweddol sy'n cael eu dyfarnu i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4 a dim ond un ysgol yng Nghymru sy'n cofrestru bron ei holl ddisgyblion ar gyfer pob un o'r tri phrif gymhwyster medrau allweddol.

Un peth mawr sy'n rhwystro mwy rhag ymgymryd â chymwysterau medrau allweddol yw amgyffrediad athrawon fod casglu tystiolaeth portffolio yn llafurus. Caiff tystiolaeth portffolio fel arfer ei chasglu o un neu ddau o bynciau, oherwydd bod athrawon yn ei chael yn anodd casglu tystiolaeth ynghyd o ystod eang o bynciau. Dywedodd mwyafrif yr athrawon a gafodd eu cyfweld fel rhan o arolwg Estyn eu bod yn gweld ochr weinyddol asesu'r cymhwyster medrau allweddol yn faich.

"Mae gan ysgolion rôl bwysig i ysgogi gwelliant mewn medrau allweddol yng Nghymru. Mae angen medrau trosglwyddadwy mewn cyfathrebu, cymhwyso rhif a TGCh ar bobl ifanc i lwyddo mewn economi fyd-eang sy'n newid yn gyflym. Mae'r defnydd ar raddfa fach ond cynyddol a wneir o gymwysterau medrau allweddol yng nghyfnod allweddol 4 yn dangos bod athrawon wedi'u gweld yn ddefnyddiol ar gyfer grwpiau penodol y tu hwnt i'r rheiny ar gwrs Bagloriaeth Cymru. Ni fyddai, fodd bynnag, yn rhesymol disgwyl i bob ysgol gofrestru pob disgybl ar gyfer

cymwysterau medrau allweddol yng nghyfnod allweddol 4, nes bod yr arfer yn fwy eang," dywedodd Dr Bill Maxwell, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

Yn 2007, dyfarnwyd bron i draean o'r cymwysterau medrau allweddol yng nghyfnod allweddol 4 i ddisgyblion mewn ysgolion peilot Bagloriaeth Cymru, gydag ychydig dros hanner o'r rhain mewn TGCh ac enillwyd bron pob un o'r rhain trwy gymwysterau 'procsi'. Mae cymwysterau procsi yn galluogi ymgeiswyr i hawlio cymhwyster medrau allweddol TGCh os ydynt yn ennill cymwysterau TGAU neu TGCh penodol.

Roedd barn dysgwyr am fedrau allweddol yn amrywio ar draws yr ysgolion yr ymwelodd arolygwyr â nhw. Lle mae ysgolion wedi dangos gwerth datblygu medrau allweddol, mae dysgwyr yn gadarnhaol ynglŷn â'r manteision. Mewn ysgolion eraill, nid yw'r disgyblion yn gwbl ymwybodol o fanteision posibl datblygu medrau allweddol. Caiff disgyblion yn ysgolion peilot Bagloriaeth Cymru eu cymell i ennill cymwysterau medrau allweddol, oherwydd bod angen iddynt wneud hynny i ennill Cymhwyster cyffredinol Bagloriaeth Cymru.

Yn yr ysgolion y gwnaed arolwg ohonynt sy'n cofrestru disgyblion ar gyfer cymwysterau medrau allweddol yng nghyfnod allweddol 4, yn aml ceir gweledigaeth ar y cyd ar gyfer datblygu medrau allweddol disgyblion ar draws yr ysgol, sy'n cael eu hysgogi gan uwch reolwyr. Mae Estyn yn argymell y dylai ysgolion annog mwy i ymgymryd â'r cymwysterau hyn yng nghyfnod allweddol 4 trwy ddatblygu strategaeth ysgol gyfan gyda synnwyr clir o gyfeiriad ar gyfer adeiladu medrau allweddol disgyblion.

Mae Estyn hefyd yn argymell y dylai cyrff dyfarnu barhau i brif ffrydio'r gwaith sy'n gysylltiedig â gweinyddu portffolios medrau allweddol ac y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru roi arweiniad ar sut gellid defnyddio'r modd y mae disgyblion yn gweithio ar draws y cwricwlwm yn fwy effeithiol i gynhyrchu tystiolaeth ar gyfer portffolios medrau allweddol.

DIWEDD

Nodiadau i Olygyddion:

- Mae Estyn, swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, yn darparu gwasanaeth arolygu a chyngor o ansawdd uchel.

- Mae adroddiad Estyn, ‘Arfarniad o gyflwyno cymwysterau medrau allweddol yng nghyfnod allweddol 4 mewn ysgolion nad ydynt yn cynnal peilot o Fagloriaeth Cymru’ yn cael ei gyhoeddi ar 5 Tachwedd 2008 ac mae ar gael yn www.estyn.gov.uk

- Mae’r adroddiad hwn wedi’i seilio ar sampl o 28 ysgol uwchradd y cysylltodd arolygwyr â nhw yn ystod gwanwyn 2008. Ymwelodd arolygwyr â 15 ysgol, cymerodd wyth ysgol ran mewn arolwg ffôn a llenwodd pum ysgol holiadur.

- Mae copïau llawn o adroddiadau arolygu ar gael ar wefan Estyn yn www.estyn.gov.uk

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:
Gina Carrington
Y Tîm Cyfathrebu, y Cyfryngau a Marchnata
Estyn
cyfathrebu@estyn.gsi.gov.uk
02920 446464